MENTRAU IAITH

CROESO!

Trefn y bore

- Cyflwyniad
- Sesiwn Turbo: Llawlyfr Marchnata a Chyfathrebu
- Sesiwn 1:
  - Y Gymraeg yn dilyn Brexit
  - Tocyn.Cymru
- TORIAD O HANNER AWR 11:30

MENTRAU IAITH

Trefn y bore

- **Sesiwn 2:**
  - Cyflwyniad a Gweithdy ar Weithredu PQASSO
  - Bocsŵn - Ehangu i’r Mentrau Iaith
- **Sesiwn Turbo: Ras yr Iaith**
- **Cyflwyniad: Ymgyrch Cymuned Fideo Cymraeg**
- **CINIO 13:30**

MENTRAU IAITH

Trefn y prynhawn

- Sgwrs Sydyn
- Sesiwn 3:
  - Y Farchnad Lafur a’r Mentrau Iaith - Camau Nesaf
  - Wicipedia Cymraeg
- Sesiwn Turbo: Gwirfoddolwyr a’r Mentrau Iaith
- Cyflwyniad: Mentro Mwy
- Gorffen 15:30

MENTRAU IAITH

Blwch Syniadau

- **PINC**
  - Hoff beth am y diwrnod?
  - Sut allwn wella'r diwrnod?

- **GLAS**
  - Pa hyfforddiant hoffech chi dderbyn yn 2018?

- **GWYRDD**
  - Unrhyw gwestiynau neu awgrymiadau am PQASSO?

- **MELYN**
  - Unrhyw syniadau rwyt am ei ddatblygu ar ôl heddiw?

MENTRAU IAITH

Ble yng Nghymru?!



MENTRAU IAITH



MENTRAU IAITH



MENTRAU IAITH

MENTRAU IAITH

Llawlyfr Marchnata a Chyfathrebu

Llawlyfr

Marchnata a Chyfathrebu

Cynnwys

- Targedu Cynulleidfa
- Canllaw Facebook
- Canllaw Twitter
- Canllaw Instagram a Snapchat
- Defnyddio Cyfryngau Cymdeithasol yn Effeithiol
- Canllaw Datganiad i'r Wasg
- Canllaw Poster/Pamffled
- Canllaw Gwefan
- Canllaw e-gylchlythyr
- Canllaw Youtube

MENTRAU IAITH

Mentrau Iaith Cymru

MENTRAU IAITH

Llawlyfr Marchnata a Chyfathrebu

Targedu Cynulleidfaoedd y Mentrau Iaith yn lleol

Cyfrwng	Teuluoedd (plant bach)	Teuluoedd (plant hŷn)	Pobl Ifanc (11 - 25)	Cymunedau (Saesneg)	Cymunedau (Cymraeg)	Y cyfryngau	Pwysigion
Facebook	X	X	X	X	X		
Twitter			X			X	X
Snapchat / Instagram			X				
Datganiadau i'r wasg						X	X
Papurau Bro	X	X			X		
Papur Saesneg Wythnosol	X	X		X			
Posteri a pamffledi	X	X	X	X	X		
Gwefan	X	X	X	X	X	X	X
e-gylchlythyr	X	X		X	X		X

Mentrau Iaith Cymru

MENTRAU IAITH

Llawlyfr Marchnata a Chyfathrebu

Canllaw Facebook

Gwefan cymdeithasol sy'n cynnwys proffiliau personol, tudalennau cwmni, corfforaeth neu sefydliad, marchnadoedd, a grwpiau cyhoeddus a phreifat.

Pam?

- Hyrwyddo digwyddiadau
- Ymgysylltu gyda'r cyhoedd
- Rhannu newyddion y fenter
- Rhannu newyddion perthnasol arall
- Hysbysebu

Pryd?

Dylid postio neges yn aml er mwyn aros yn gyfredol a gweladwy.

O leiaf dwywaith yr wythnos.

Amseroedd strategol (pryd mae'ch cynulleidfa yn defnyddio Facebook? E.e. ar ôl gwaith neu ar ôl swper)

Pwy mae'n targedu?

- Teuluoedd (plant bach)
- Teuluoedd (plant hŷn)
- Pobl Ifanc (11-25)
- Cymunedau (Saesneg)
- Cymunedau (Cymraeg)

Pa fath o dudalen?

Tudalen (Cwmni, Corfforaeth neu Sefydliad)	Proffil Person (proffil ar gyfer aelod staff sy'n llwyr broffesiynol ac ar wahân i'w proffil personol)
• Er mwyn creu digwyddiadau • Yn ffenest siop gyhoeddus • I ymgysylltu gyda'r cyhoedd • Gallu gweld 'mewnweliadau' • Gallu hysbysebu	• Er mwyn i'r cyhoedd ymgysylltu'n uniongyrchol gydag aelod o staff ar-lein

MENTRAU IAITH

Mentrau Iaith Cymru

MENTRAU IAITH

Llawlyfr Marchnata a Chyfathrebu

Canllaw Datganiad i'r Wasg

E-bost neu ddogfen sy'n dweud eich stori yn glir, syml a chywir

Dyma ffordd i ledaenu eich stori newyddion i'r wasg a'r cyfryngau gan sicrhau eu bod yn derbyn y ffeithiau yn uniongyrchol gennych chi.

Y Golofn Gymraeg?

Gallwch hefyd holi'r papurau bro neu'r papur Saesneg yn eich ardal am golofn neu dudalen ar gyfer hyrwyddo eich gwaith chi a rhannu newyddion am y Gymraeg yn yr ardal.

Pam?

I hyrwyddo:

- Digwyddiad e.e. Diwrnod hwyl i'r teulu yn lleol
- Ymgyrch e.e. Prosiect lego gyda phobl ifanc
- Newyddion e.e. Penodi Prif Swyddog newydd
- Stori brofiad e.e. rhywun wedi goresgyn problemau i wneud rhywbeth

Pryd?

Dylid anfon rhain mewn da bryd i gyrraedd amser cau'r gweisg neu gyfarfodydd trefnu cynnwys rhaglenni…

e.e. mae dyddiad cau papurau wythnosol ganol/diwedd yr wythnos olynol

e.e. mae cyfarfodydd Post Prynhawn peth cyntaf y bore

Pwy mae'n targedu?

Gwasg 1. Cenedlaethol a. Western Mail, Nation.Cymru, Golwg, Y Cymro, Lleol.cymru ayyb 2. Lleol a. Papurau Bro b. Papurau wythnosol a dyddiol (e.e. Llanelli Star, Chronicle ayyb)	**Cyfryngau** 3. Radio a. Radio Cenedlaethol (Radio Cymru/Radio Wales) b. Radio Ardal (e.e. Mon FM, Wave, BGFM ayyb) 4. Teledu a. Newyddion (Newyddion 9, ITV Cymru) b. Cylchgrawn (Heno, Prynhawn Da, One Show ayyb)

Mentrau Iaith Cymru

MENTRAU IAITH

Llawlyfr Marchnata a Chyfathrebu

Dilynwch y templed isod i greu Datganiad i'r Wasg am eich newyddion.

DATGANIAD I'R WASG
25/04/2017

LOGO
TEITL BACHOG, OND GWYBODUS, SY'N DAL SYLW

Paragraff cyntaf i ateb y 5 cwestiwn – pwy, beth, pryd, ble, pam – 1 neu 2 frawddeg.

Ail baragraff i ymhelaethu ar y cyntaf – unrhyw wybodaeth ychwanegol?
Cyflwyno dyfynydd;

"Dyfyniad"

Cyflwyno ail ddyfynydd (mae'n ddefnyddiol rhoi opsiwn o ddau lais);

"Dyfyniad"

Unrhyw sylwadau cloi e.e. ble mae cael mwy o wybodaeth (dolen i wefan), tocynnau ayyb

DIWEDD

Am fwy o wybodaeth, lluniau neu i drefnu cyfweliad cysylltwch â Enw, ebost, rhif ffôn.

Llun – beth yw'r llun e.e. poster yr ymgyrch, llun o'r digwyddiad, llun o berson
Oes angen credydu'r ffotograffydd?

Nodiadau Golygyddol

Yma gallwch roi unrhyw wybodaeth ychwanegol fydd o ddefnydd i olygydd e.e. cefndir

MENTRAU IAITH

Mentrau Iaith Cymru

MENTRAU IAITH

Llawlyfr Marchnata a Chyfathrebu

Rhestr Wirio a Datblygu

Defnyddiwch y tabl isod i sicrhau eich bod yn gwneud y mwyaf o'r holl sianeli marchnata a chyfathrebu sydd ar gael i chi yn effeithiol.

Cofiwch ddarllen a gwirio'r canllawiau cyn ticio'r blwch.

Cyfrwng	Ddim yn ei ddefnyddio	Lle i wella	Defnyddio'n effeithiol
Facebook			
Twitter			
Intsagram / Snapchat			
Datganiadau i'r wasg			
Papurau Bro			
Papur Saesneg ardal			
Posteri a pamffledi			
Gwefan			
e-gylchlythyr			
Youtube			

MENTRAU IAITH

Mentrau Iaith Cymru

ENGLISH | MEWNGOFNODI

Hafan | Dod o hyd i Fenter | Amdanom ni | Ein Gwaith | Newyddion | Partneriaid | Cysylltu

Helo **Marged**, Cliciwch fan hyn i fynd at Fewnrwyd y Mentrau Iaith. Llyfrgell Ddogfennau / Lluniau / Cysylltiadau / Dolenni Defnyddiol

Preifat: Staff yn Unig

Darperir y dogfennau isod gan ystod o ffynonellau amrywiol, rhai wedi'u darparu yn fewnol ac eraill yn allanol. Ni allwn warantu y bydd pob un o'r dogfennau hyn yn gyfredol nac ychwaith yn gywir. Wedi methu dod o hyd i ddogfen neu oes gennyt ddogfennau i'w cyflwyno? Cofia gysylltu â ni i roi gwybod.

Gweld y Cyfan | Adnoddau Dynol | Adroddiad | Arfer Da | Busnes | Cofnodion | Cyfarfodydd | Cymraeg Byd Busnes | Cynhadledd | Grant | Hyfforddiant | Logos | Magi Ann | Marchnata | Partneriaid | PQASSO - 1.Llywodraethu | PQASSO - 10. gweithio gydag eraill | PQASSO - 2. Cynllunio | PQASSO - 3. Arweiniaeth a Rheoli | PQASSO - 4. gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr | PQASSO - 5. Rheoli pobl | PQASSO - 6. Dysgu a datblygu | PQASSO - 8. rheoli adnoddau | PQASSO - 9. cyfathrebu allanol | Prosiectau | Y Gymraeg | Ymgynghoriadau | Ymwybyddiaeth Iaith

Chwilio am Ffeil: Chwilio

MENTRAU IAITH

MENTRAU IAITH

Cysylltwch...

Marged Rhys

marged@mentrauiaith.cymru

- **Sesiwn 1: 11:00 - 11:30**
  - Y Gymraeg yn Dilyn Brexit

    Emyr Lewis, Cyfreithwyr Blake Morgan

  - Tocyn.Cymru

    Osian Evans, Moilin

- **TORIAD 11:30**

  (cyfle i edrych ar y byrddau arddangos)

MENTRAU IAITH

➔ Sesiwn 2: 12:00 - 12:30

- Cyflwyniad a Gweithdy i Weithredu PQASSO

  Heledd Kirkbride, WCVA

- Bocsŵn - Ehangu i’r Mentrau Iaith

  Helen Thomas, Huw Owen a Richard Owen,

  Menter Iaith Môn

MENTRAU IAITH

MENTRAU IAITH

Ras yr Iaith - Camau Nesaf

Ras YR IAITH

MENTRAU IAITH

Ras yr Iaith 2016

- Ymweld â 25 o drefi
- Dros 3 diwrnod
- Codi dros £14,000 i’r iaith
- 45 mudiad cymunedol yn derbyn arian

MENTRAU IAITH

2018?

- **Gorffennaf 4ydd-6ed**
- **Diwrnod 1:** Fflint, Llanrwst, Bangor, Môn?, Machynlleth
- **Diwrnod 2:** Cered?, Sir Benfro?, Caerfyrddin, Rhydaman, Llanelli?, Ystradlgynlais
- **Diwrnod 3:** Abertawe, Bro Ogwr, RhCT, Merthyr, BGTM, Caerffili

MENTRAU IAITH

BANGOR – 09:15 - 10:00, dydd Mercher 06/07/2016

Manylion / Details

Cyfanswm / Total = 3.9km

Cymal 1 / Leg 1



Stiward / Stewards

Cychwyn / Start

Diwedd / Finish

Rhan 1 / Part 1 = 1.8km

Rhan 2 / Part 2 = 1.8km

Rhan 3 / Part 3 = 0.3km

MENTRAU IAITH

Ras yr Iaith



MENTRAU IAITH

MENTRAU IAITH

Cysylltwch...

Iwan Hywel

iwanhwel@mentrauiaith.cymru

MENTRAU IAITH

Ymgyrch Cymuned Fideo Cymraeg

Nod

Dylanwadu ar bobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg drwy gynyddu'r presenoldeb o'r iaith ar YouTube.

MENTRAU IAITH

Cefndir

Trafodaeth gyda chriw o bobl ifanc mewn clwb leuenctid am Youtube yn 2015

- **22,171,562**
- **Dyma adloniant a chymunedau ein pobl ifanc ni**
- **Dylanwadol a dwl**
- **Oes lle i'r Gymraeg?**

MENTRAU IAITH

Cefndir

Diwedd 2015 – Dechrau Sianel Youtube Newydd i ATEB Y GALW

2016 Criw o ferched wedi dechrau Flogio yn Abertawe



PERCHNOGAETH + HWYL + CYMUNED

2017 199,614 o flogs Cymraeg wedi gwylio o'i gymharu â 38 yn 2015

MENTRAU IAITH



MENTRAU IAITH

Cynllun

1. **Partneriaeth**
2. **Clybiau Fideo**
3. **Cystadleuaeth**
4. **Hyrwyddo**

MENTRAU IAITH

1 - Partneriaeth

- **Mudiadau Cymraeg**

(Urdd, Mudiad Meithrin, Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Clybiau Ffermwyr Ifanc ayyb)

- **Rhaglenni Teledu a Digwyddiadau**

(Fideo Fi, Hansh, Sinemaes, Gwyl Pics)

MENTRAU IAITH

2 - Clybiau Fideo

- Cynnal sesiwn fideo mewn clybiau ieuenctid / clybiau hanner tymor ayyb

- Dechrau clwb fideo mewn ysgolion / clybiau ieuenctid

- Canolbwyntio ar ddiddordebau gwahanol e.e. Gemau fideo

- MIC i gynnal sesiynnau hyfforddiant

MENTRAU IAITH

3 - Cystadleuaeth

- Annog plant a phobl ifanc i anfon eu fideos atom i'w lwytho

- Unrhyw bwnc (sy'n weddus, unrhyw gyfrwng, ond bod rhaid i unrhyw sylwebaeth fod yn y Gymraeg

- Staff y Mentrau bydd yn llwytho'r fideos i sianel Youtube yr ymgyrch fel nad oes unrhyw fideos anaddas yn cael eu llwytho

- Fideos sy'n derbyn y mwyaf o 'hits' (nifer gwylwyr), o dri categori oedran, yn ennill gwobr: offer technegol o ryw fath a sesiwn diwtora 1 i 1 gyda chynhyrchydd fideo proffesiynol.

MENTRAU IAITH

4 - Hyrwyddo

- Fideo animeiddio

- Creu sianel Twitter, Instagram a Facebook

- Gwynebau i sôn am bwysigrwydd fideos Cymraeg e.e. Llio Angharad, Cai Morgan, Gav Murphy.

MENTRAU IAITH

I gloi...

Beth rydym am i chi wneud?

- Cynnal sesiwn fideo yn eich digywddiadau ieuenctid
- Hyrwyddo’r sianel EinTiwb a’r wybodaeth am y gystadleuaeth

MENTRAU IAITH

MENTRAU IAITH

Cysylltwch...

Marged Rhys

marged@mentrauiaith.cymru

Eleri Griffiths

eleri@menterabertawe.cymru

Trefn y prynhawn

- Sgwrs Sydyn
- Sesiwn 3:
  - Y Farchnad Lafur a’r Mentrau Iaith - Camau Nesaf
  - Wicipedia Cymraeg
- Sesiwn Turbo: Gwirfoddolwyr a’r Mentrau Iaith
- Cyflwyniad: Mentro Mwy
- Gorffen 15:30

MENTRAU IAITH

MENTRAU IAITH

Sgwrs Sydyn-

Dyrannu Cynulleidfa

Mewn grwpiau:

- Teuluoedd a phlant bach
- Plant a phobl ifanc
- Oedolion Ifanc
- Siaradwyr Cymraeg Rhugl
- Newydd i’r Gymraeg

MENTRAU IAITH

➔ Sesiwn 3: 14:30 - 15:00

- Y Farchnad Lafur a’r Mentrau Iaith - Camau Nesaf

  Meirion Davies a Bedwyr ap Gwyn, Menter Iaith Conwy

- Wicipedia Cymraeg

  Jason Evans, Llyfrgell Genedlaethol Cymru

  Helen Thomas, Menter Iaith Môn

  Angharad Thomas, Menter Caerdydd

MENTRAU IAITH

MENTRAU IAITH

Gwirfoddolwyr a'r Mentrau Iaith

Rhagfyr 5ed - Diwrnod Rhyngwladol Gwirfoddolwyr

"International Volunteer Day (IVD) on 5 December was designated by the United Nations in 1985 as an international observance day to celebrate the power and potential of volunteerism." - Volunteer Now

Beth bydd y Mentrau'n ei wneud?

- **Cydnabod gwaith caled gwirfoddolwyr y Mentrau Iaith ar y cyfryngau cymdeithasol (llun a dyfyniad byr)**
- **Lansio fideo 'Gwirfoddoli gyda'r Mentrau Iaith'**

MENTRAU IAITH

Mehefin 1-7fed - Wythnos Cenedlaethol Gwirfoddolwyr

"Volunteers' Week is an annual celebration of the fantastic contribution millions of volunteers make across the UK." - Volunteers Week, NCVO

Beth bydd y Mentrau'n ei wneud?

- **Pob Menter Iaith wedi cael hyfforddiant delio gyda gwirfoddolwyr**
- **Gweithio gyda'r WCVA, Merched y Wawr, Cymdeithas Eisteddfodau Cymru a Chlybiau Ffermwyr Ifanc i gydnabod gwirfoddolwyr iaith Cymraeg yn ein cymunedau**

MENTRAU IAITH

MENTRAU IAITH

Cysylltwch...

Marged Rhys

marged@mentrauiaith.cymru

MENTRAU IAITH

Mentro Mwy

Mentro Mwy- Y Diweddaraf- 4 Cam

1. CODI ANSAWDD A LLYWODRAETHIANT

Bod yn bwynt cyswllt cyntaf i gymunedau Cymru ar gyfer y Gymraeg, ganddarparu gwybodaeth, gwasanaethau cyfeirio a gweithgareddau o bob math.

Sicrhau gwasanaethau o safon uchel a chyson gan y Mentrau Iaith ar draws Cymru….sy'n cynnwys cyflawni marc ansawdd PQASSO, cryfhau gwasanaethau cwsmer,a chysoni'r lefel ddisgwyliedig o wasanaethau ar draws Cymru.

MENTRAU IAITH

Mentro Mwy

2. CYDWEITHIO A GWEITHREDU'N DDAEARYDDOL STRATEGOL

Ymchwilio i ffyrdd newydd o gydweithio â'n gilydd ac â phartneriaid, a hynny yn lleol, yn rhanbarthol, yn drawsffiniol ac yn genedlaethol, mewn ymateb i anghenion ieithyddol cymdeithasol a newidiadau gwleidyddol.

Sefydlu rhwydwaith torfol o gefnogwyr a gwirfoddolwyr i'r Mentrau Iaith a'r Gymraeg er mwyn gweithredu, cefnogi a chyfrannu at brosiectau sy'n hyrwyddo dysgu a defnyddio'r iaith, gan sicrhau perchnogaeth leol i'n gwaith.

MENTRAU IAITH

Mentro Mwy

3. ARLOESEDD

Gweithredu fel partner allweddol wrth gefnogi’r nod o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, a mynd ati i ddatblygu cynlluniau a gwasanaethau newydd i gefnogi unigolion i ddysgu a defnyddio’r iaith yn eu bywydau bob dydd.

MENTRAU IAITH

Mentro Mwy

4. ARIANNU TEG

Ceisio am ragor o gefnogaeth ariannol gan Lywodraeth Cymru i waith y Mentrau Iaith, gan anelu yn y lle cyntaf at sicrhau isafswm o £100,000 i bob Menter unigol i'w galluogi i gynnig lefel cyson o wasanaethau ar draws Cymru, yn ogystal â chodi cyfraniad Mentrau Iaith Cymru'n ôl i £180,000 er mwyn sicrhau cefnogaeth ymarferol gadarn i waith y Mentrau Iaith lleol.

MENTRAU IAITH

MENTRAU IAITH

Cysylltwch...

Iwan Hywel

iwanhywel@mentrauiaith.cymru

MENTRAU IAITH

Diolch yn fawr!!!

Iwan Hywel

iwanhywel@mentrauiaith.cymru

Marged Rhys

marged@mentrauiaith.cymru

Heledd ap Gwynfor

heledd@mentrauiaith.cymru